## PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD EDC 04-01(p6)

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 7 Mawrth 2001, 2:00pm – 5:30pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| **Teitl:** | **AWDURDOD DATBLYGU CYMRU: CYNLLUN BUSNES 2001-02**<br><br>(Papur gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd) |

## Pwrpas

1. Y Pwyllgor i nodi Cynllun Busnes drafft Awdurdod Datblygu Cymru ar gyfer 2001-02 (a amgaeir yn Atodiad 2).

**DS – NI thrafodir yr eitem hon yng nghyfarfod 7 Mawrth.**

## Gweithredu

2. Nid oes angen i'r Pwyllgor weithredu. Oherwydd y gofynion sydd ar amser y Pwyllgor, mae'r Gweinidog a Chadeirydd y Pwyllgor wedi cytuno y dylid rhoi Cynllun Busnes Awdurdod Datblygu Cymru i aelodau'r Pwyllgor eleni er gwybodaeth. Bydd hyn yn rhyddhau amser yn y Pwyllgor i ystyried materion mwy strategol.

3. Serch hynny, os yw aelodau unigol y Pwyllgor am ofyn cwestiynau am fanylion y Cynllun drafft, gallant wneud hynny'n ysgrifenedig at y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd erbyn **10 Mawrth** fan bellaf. Bydd yr amserlen dynn hon yn caniatáu gwneud unrhyw ddiwygiadau a chymeradwyo'r Cynllun drafft cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

## Cefndir

4. Mae'r Cynllun Busnes yn amlinellu'n fanwl sut y mae Awdurdod Datblygu Cymru yn bwriadu gwario'i gyllideb ar gyfer 2001-02. Llunnir y Cynllun drafft o fewn y fframwaith polisi a osodwyd gan y Cynulliad. Yn arbennig, mae'n cymryd i ystyriaeth lythyr Canllawiau Strategol y Cynulliad a

ryddhawyd gan Brif Weinidog Cymru ym mis Mawrth 2000, a darperir copi ohono fel atodiad i bapur EDC-04-01(??), a Chynllun Corfforaethol yr Awdurdod ei hun, sydd ar gael ar ei wefan, sef www.wda.co.uk.

5. Mae adran 5.2 o'r Cynllun Busnes yn cynnwys cynigion ar gyfer targedau allbwn gogyfer â 2001-02. Mae swyddogion y Cynulliad yn cydweithio'n agos â swyddogion yr Awdurdod i lunio targedau i'r Awdurdod ar gyfer 2001-02, ac fe'u cyhoeddir gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd yn fuan. Hefyd, mae'r swyddogion yn gweithio ar lunio dulliau newydd o osod targedau i'r Awdurdod (gweler y Papur Pwyllgor ar Ganllawiau Strategol Awdurdod Datblygu Cymru).

6. Dylai aelodau'r Pwyllgor fod yn ymwybodol bod y Cynllun drafft wedi'i lunio cyn penderfyniad Corus i gael gwared ar dros 3,000 o swyddi yng Nghymru. Yn sgîl y penderfyniad hwn, mae'r Awdurdod yn cydnabod efallai y bydd angen diwygio'i flaenoriaethau er mwyn bod o'r cymorth mwyaf i'r cymunedau yr effeithir arnynt.

## Cydymffurfiaeth

7. Sefydlwyd Awdurdod Datblygu Cymru gan Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru). Trosglwyddwyd pwerau o dan y Ddeddf honno i'r Cynulliad ac fe'u dirprwywyd i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a'i staff.

8. Yn unol ag adran 1(14) o'r Ddeddf, rhaid i'r Asiantaeth gyflwyno rhaglen i'w chymeradwyo gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (o dan adran 1(15) o'r Ddeddf), ar ffurf Cynllun Busnes blynyddol.

## Goblygiadau Ariannol

9. Nid oes goblygiadau ariannol o ganlyniad i'r papur hwn. Wrth gymeradwyo'r Cynllun Busnes drafft hwn, bydd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd yn nodi bod y ffigurau o fewn y Cynllun drafft yn seiliedig ar gyllideb y Cynulliad (fel y'u mabwysiadwyd gan y Cynulliad ar 7 Rhagfyr 2000), ynghyd â lefelau mynegol o arian Ewropeaidd ac incwm a gynhyrchodd ei hun.